

Ein Cyf /Our Ref:

Eich Cyf /Your Ref:

Dyddiad /Date:

Gofynnwch am/Please ask for:

Llinell uniongyrchol/Direct line:

Ebost/Email:

ST/SJW/AQ

06/08/18

Steve Thomas

029 2046 8610

steve.thomas@wlga.gov.uk



CLILC • WLGA

Mr David J Rowlands AC/AM
Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales
Pwyllgor Deisebau/Petitions Committee
Bae Caerdydd/Cardiff Bay
Caerdydd/Cardiff
CF99 1NA

Annwyl Mr Rowlands AC/AM,

Deiseb P-05-825 Amddiffyn ysgyfaint plant rhag llygredd niweidiol tra byddant yn yr ysgol

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn ymroddedig i gynorthwyo awdurdodau lleol weithio i gyflawni aer glanach i'n holl gymunedau.

O'r herwydd, rydym yn ymgysylltu â Fforwm Ansawdd Aer Cymru, Panel Arbenigol Ansawdd Aer Cymru Gyfan, a Chyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru, sy'n gweithio ar y cyd i hwyluso polisi a chamau gweithredu, ar lefel leol a Chymru.

Ym Mehefin 2018, fe wnaeth CLILC hefyd dderbyn gwahoddiad i gyfranogi yn nadl Aer Iach Cymru i nodi Diwrnod Aer Glân, digwyddiad a gynhaliwyd gan David Melding AC.

Ar y cyd â Chyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd yng Nghymru, rydym yn cytuno bod angen i bawb leihau eu hymgysylltiad â llygredd aer. Rydym yn credu y gellid gwneud mwy i amddiffyn iechyd y boblogaeth, yn enwedig plant, o'r niwed posibl a achosir gan ansawdd aer gwael.

Monitro safleoedd ysgol

Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y bydd monitro ansawdd aer y tu allan i bob ysgol o reidrwydd yn helpu i lywio'r polisïau cywir.

Ar gyfer y mwyafrif o ysgolion yng Nghymru, mae ansawdd aer yn ystod y llwybr i'r ysgol yn llawer mwy pwysig na'r ysgol ei hun. Mae angen gweithio ar systemau gwell i roi gwybod i rieni (mewn amser go iawn gobeithio) am y llwybr gorau i'r ysgol, gyda'r ymgysylltiad isaf

Steve Thomas CBE
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth
Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government
Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru
wlga.wales

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

**We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.**

ar gyfer y diwrnod hwnnw. Mae lleihau effaith y daith i'r ysgol yn fater allweddol arall.

Mae gan ystyriaethau ehangach ynghylch polisi cyhoeddus effaith bosibl yma hefyd. Mae'r duedd tuag at nifer lai o ysgolion mwy yn golygu bod plant yn teithio mwy o bellter i gyrraedd ysgol, gyda chynnydd o ganlyniad mewn dibyniaeth ar geir a bysiau, a heriau cynyddol o ran hyrwyddo beicio a cherdded.

Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae canlyniadau iechyd o benderfyniadau polisiâu cyhoeddus angen eu hystyried yn well yn gyffredinol, yn enwedig o ran cyd-destun Asesiad Effaith Iechyd a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Y tu allan i giât yr ysgol, fe all fod ymgysylltiad byr â nitrogen deuocsid a gronynnau mân, yn dibynnu ar y trefniadau parcio a'r topograffi lleol.

Canllaw Llywodraeth

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i fonitro ansawdd aer yn eu hardal ac maent oll yn bodloni'r cyfrifoldeb hwn. Mae sut y cynhelir hyn yn cael ei siapio a'i fanylu yn ei gylch mewn canllaw llywodraeth. Gall ein technegau sgrinio ond mesur cyfartaleddau tymor hir, ond mae'r dull hwn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol da i nodi meysydd lle mae ymgysylltiad yn debygol o gael ei gynyddu'n sylweddol. Mae hyn yn ystyried sawl astudiaeth flaenorol i gymharu gwerthoedd brig â gwerthoedd cyfartalog, ac yn caniatáu bwlbch diogelwch eithaf mawr i sicrhau nad ydym yn methu safleoedd y dylem fod yn eu hasesu.

Asesiad parhaus

Bydd unrhyw ysgol yng Nghymru gyda llif traffig rhesymol ar y ffyrdd tu allan wedi cael eu hasesu'n barod gan yr awdurdod lleol, a bydd data wedi'i gasglu am o leiaf 12 mis. Os nad ydym yn mesur yn yr ysgol honno mwyach, mae hynny oherwydd bod ansawdd cyfredol yr aer yn llawer is na'r gwerth targed.

Yn ffodus, dim ond nifer fach o ysgolion yng Nghymru y ceir ansawdd aer ar y safle sy'n dal yn bryder. Mae yna rai prosiectau ar y gweill lle rydym yn chwilio am fesuriadau gronynnau mân tymor byr mewn ysgolion. Mae'r rhain yn dibynnu ar gydweithredu â Phrifysgol Abertawe, fel arall ni fyddai'r awdurdodau lleol hynny'n gallu cyfiawnhau cost y cyfarpar monitro.

Byddai'n well o lawer gan awdurdodau lleol Cymru ganolbwyntio eu hymdrechion ar waith a fyddai'n lleihau effaith y daith i'r ysgol a rhoi gwell gwybodaeth i rieni am ymgysylltiad eu plentyn yn ystod y daith honno.

Mae yna hefyd faterion polisi i'w hystyried o amgylch darwahanu amseroedd ysgol a rhannu contractau cludiant ysgol. Gallai mesur nitrogen deuocsid y tu allan i ysgolion, yn defnyddio technoleg gyfredol, roi camargraff nad yw plant yn gyffredinol yn cael eu heffeithio gan allyriadau cerbydau.

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.

Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.

Use of either language will not lead to a delay.

Teithio Llesol

Mae yna sawl gweithgaredd neu gam y mae'r cyngor yn eu cymryd, neu yn eu cynllunio, mewn perthynas â theithio llesol a hyrwyddo cludiant cynaliadwy sy'n berthnasol i'r mater o ansawdd aer o amgylch ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau peirianeg, addysgol a gorfodi.

Gallai mesurau '**peirianeg**' gynnwys:

- Cynllunio defnydd tir, lle mae ardaloedd tai newydd ac ysgolion yn cael eu dylunio i ymgorffori llwybrau diogel sy'n gallu annog cerdded a beicio i'r ysgol
- Gosod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan (EV) i annog pobl i ddefnyddio EV (gweler e.e. [Abertawe - Mwy o bwyntiau gwefru ar y gweill ar gyfer cerbydau trydan; Caerdydd yn gwneud cynnig i gael mwy o bwyntiau gwefru ceir trydan - Wales Online; Wrecsam: Cynllun ehangu pwyntiau gwefru ceir ar gyfer y dref | The Leader](#))
- darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol, sy'n lleihau nifer y teithiau ceir gofynnol
- gosod mesurau gostegu traffig sy'n gwella diogelwch ac yn gallu annog modurwyr nad ydynt ar daith i'r ysgol i gymryd llwybrau eraill (lle maent ar gael)
- defnyddio cyfyngiadau cyflymder o amgylch ysgolion sy'n gwella diogelwch (yn cynnwys atal traffig nad ydyw'n ymwneud â'r ysgol) ac felly gall gyfrannu at ymdrechion i gael plant i gerdded a beicio
- camau sy'n codi o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Mapio Rhwydwaith Integredig

Mewn perthynas â'r Ddeddf Teithio Llesol, roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Integredig. Roedd y rhain yn nodi llwybrau cerdded a beicio y bydd cynghorau'n ceisio eu darparu dros y 15 mlynedd nesaf.

Diffinnir teithio llesol fel: "taith a wneir i weithle *neu sefydliad addysgol* neu oddi yno, er mwyn cael mynediad at iechyd, hamdden neu wasanaethau neu gyfleusterau eraill".¹ Wrth ddatblygu eu cynlluniau teithio llesol felly, mae teithiau i'r ysgol wedi bod yn ystyriaeth bwysig.

O'r herwydd, datblygir llwybrau, y bwriad yw y bydd plant yn cael eu hannog i gerdded neu feicio i'r ysgol. Bydd hyn yn lleihau tagfeydd ar adegau gollwng a chasglu, gan felly wella ansawdd aer yn yr y cyffiniau.

Addysg

Yn ogystal â mesurau ffisegol i wella llwybrau, mae cynghorau hefyd yn gwneud gweithgaredd **addysgol** mewn perthynas â diogelwch ffyrdd (y gellir ei anelu at yrwyr yn ogystal â phlant – e.e. drwy weithgaredd ysgol eco ar rannu ceir ac ymgyrchoedd peidio â gadael injans ceir i droi).

¹ <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2017-09/statutory-guidance-for-the-delivery-of-the-active-travel-wales-act-2013.pdf> (tudalen 5, pwyslais wedi'i ychwanegu).

Fel rhan o hyn, mae nifer o gynghorau ac ysgolion yn annog cerdded i'r ysgol, yn cynnwys defnyddio 'bysiau cerdded', lle mae plant yn cerdded i'r ysgol gyda gwirfoddolwyr ar y blaen a'r cefn (ar ôl gwneud asesiadau risg a gwiriadau) - gweler er enghraifft:

[Estyn camau yng Nghaerffili](#)

[Cerdded i'r Ysgol](#) (Sir Gaerfyrddin)

[Ysgol yng Nghymru'n cael ei gwobrwyo am annog plant i feicio, cerdded a mynd ar sgwter i'r ysgol | Sustrans](#) (Sir Ddinbych)

[Ysgol Gynradd Hafren yn derbyn yr her | Living Streets](#) (Caerdydd)

Gorfodaeth

O ran **gorfodaeth**, gall mesurau ffisegol fel mesurau gostegu traffig fod yn 'hunan-orfodaeth' o ran cyfyngu ar gyflymder. Mae mesurau weithiau'n cynnwys cynlluniau plannu, sy'n gallu cyfrannu at ansawdd aer yn eu hunain.

Mewn rhai achosion, mae arwyddion sy'n cael eu hail-ddangos yn cael eu defnyddio i dynnu sylw at gyflymder y gyrrwr, a gall cynghorau hefyd weithio gyda Gan Bwyll, y bartneriaeth camerâu diogelwch ffyrdd yn yr achosion hynny lle mae camerâu (sefydlog neu symudol) yn cael eu hystyried yn hanfodol.

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn cynorthwyo gyda gwaith y Pwyllgor. Cysylltwch â CLILC eto os ydych chi angen rhagor o wybodaeth neu gymorth.

Yn ddiffuant,



Steve Thomas CBE

Prif Weithredwr/Chief Executive

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.

Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.

Use of either language will not lead to a delay.

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.